## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3) 11-09)

**Dyddiad:** 27 Ebrill 2009
**Amser :** 16.00
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

**CYNNWYS**

---

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 27 Ebrill 2009. Roedd yr aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, Mike German AC a Joyce Watson AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood AC. Roedd William Graham AC yn dirprwyo ar ei ran.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC267 - Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2009.. Fe'u gosodwyd ar ... 2009. Yn dod i rym ar … 2009.

**SLC268 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2009.. Fe'u gosodwyd ar ... 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009.

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC269 - Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 24 Mawrth 2009. Fe'i gosodwyd ar 25 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009.

**SLC270 - Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009.

**SLC271 - Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 4) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 24 Mawrth 2009. Fe'i gosodwyd ar 26 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 23 Ebrill 2009.

**SLC273 - Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 22 Ebrill 2009.

**SLC275 – Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 24 Ebrill 2009.

**SLC276 - Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 22 Ebrill 2009.

**SLC277 - Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 5 Ebrill 2009. Fe'i gosodwyd ar 7 Ebrill 2009. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1.

**SLC278 - Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Ebrill 2009. Fe'u gosodwyd ar 15 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 6 Mai 2009.

**Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC272 - Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 17 Ebrill 2009.

**SLC274 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 31 Mawrth 2009. Fe'u gosodwyd ar 1 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 22 Ebrill 2009.

Ceir adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn atodiadau 1-2 i'r adroddiad hwn.

**Unrhyw fater arall**

**Ystyried y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol)**

Fel rhan o'r gwaith craffu ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol) a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru") clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau.

Cytunodd yr Aelodau i ystyried adroddiad drafft a'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'r Mesur Seneddol yn ei gyfarfod nesaf.

**Y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)**

Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), a osodwyd ar 2 Mawrth 2009. Nododd yr Aelodau fod y Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â swyddogaethau penodol a bod y pŵer ym mhob achos i gael ei arfer gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. Mae’r Mesur arfaethedig yn cynnwys portffolio tri Gweinidog: Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Penderfynodd y Pwyllgor graffu ar y Mesur drafft o dan Reol Sefydlog 15.6(ii) (“pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru”) a gwahodd Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i roi tystiolaeth i’r Pwyllgor.

**Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol 200-: y wybodaeth ddiweddaraf**

Nododd yr Aelodau fod Pwyllgor Deddfwriaeth 4, wrth gynnal ei waith craffu yn ystod Cyfnod 2 y Mesur arfaethedig, wedi cyflawni argymhellion (1) a (3) a wnaed gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ôl ystyried Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200- o dan Reol Sefydlog 15.6(ii) yn ei adroddiad ar ba mor briodol yw’r darpariaethau sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru ym Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-.

**Ehangu’r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i’r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig – ystyried yr adroddiad terfynol**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i gyd-drafod casgliadau ac argymhellion yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**27 Ebrill 2009**

## Atodiad 1

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-011-09)**

**SLC272**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith safonau marchnata'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chynhyrchu, marchnata a graddio wyau, a bydd yn galluogi deddfwriaeth bresennol a newydd y Gymuned i gael ei gorfodi yng Nghymru mewn perthynas â wyau deor neu wyau ar gyfer eu bwyta, ac mewn perthynas â chywion dofednod buarth fferm.

**Gweithdrefn:** Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Dylai'r diffiniad o "cywion" yn Rheoliad 3 (1) gyfeirio at yr ystyr a roddir yn Erthygl 1(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008, yn hytrach na 618/2008 – 15.2 (vi)

Dylai Rheoliad 3 (4) (b) gyfeirio at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 yn hytrach na 617/2007 – 15.2 (vi)

Wrth gyfrifo terfyn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau o dan reoliad 5 (2), nid yw'r ymadrodd "y cloc yn cael ei stopio" yn Rheoliad 5 (11) yn esbonio'n ddigon clir ai'r bwriad yw eithrio unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi i geisydd i gymryd unrhyw gamau a bennir mewn hysbysiad o dan reoliad 5 (4) – 15.2 (v)

Wrth gyfrifo terfyn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau o dan reoliad 8 (2), nid yw'r ymadrodd "y cloc yn cael ei stopio" yn Rheoliad 8 (11) yn esbonio'n ddigon clir ai'r bwriad yw eithrio unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi i geisydd i gymryd unrhyw gamau a bennir mewn hysbysiad o dan reoliad 8 (4) – 15.2 (v)

**Janet Ryder**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**27 Ebrill 2009**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwyntiau adrodd.

O ran y pwyntiau yr adroddwyd arnynt mewn cysylltiad â Rheoliad 3(1) a Rheoliad 3(4)(b) bwriadwn gywiro’r gwallau a nodwyd cyn i’r ddeddfwriaeth gael ei chyhoeddi.

O ran y pwyntiau yr adroddwyd arnynt mewn cysylltiad â Rheoliad 5(11) a Rheoliad 8(11) mae gwasanaethau cyfreithiol wedi cael cyfarwyddiadau i ddirymu ac ail-wneud y rheoliadau hyn er mwyn rhoi rheolaethau newydd ar waith o ran Salmonela mewn wyau. Bwriadwn ddiwygio’r geiriad yr adroddwyd arno yn y rheoliadau newydd a ddaw.

## Atodiad 2

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-11-09)**

**SLC274**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion yn ymwneud ag apelau yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn plentyn i ysgol. Gwneir dau ddiwygiad. Bach iawn yw'r diwygiad cyntaf a fwriedir i egluro materion y dylid eu hystyried gan banel apêl pan fydd yn ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau a wnaed ar sail deddfwriaeth maint dosbarth babanod. Mae'r ail yn rhoi Atodlen 2 newydd yn lle'r hen un yn Rheoliadau 2005, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer apelau mewn achosion lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud am blant sy'n mynd i'r chweched dosbarth, neu sy'n cael addysg ar ôl iddynt beidio â bod yn blant o oedran ysgol gorfodol. Mae'r Atodlen newydd yn dileu cyfeiriadau at y Cyngor Tribiwnlysoedd, a ddisodlwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae'r testun Saesneg yn gyson yn cyfeirio at "local authority" ("awdurdod lleol") tra mae'r testun Cymraeg (ac eithrio rheoliad 2 (5) a (11), sy'n cyfeirio at "awdurdod addysg lleol") yn cyfeirio at "awdurdod lleol". Mae'r ddau ddarpariaeth galluogi penodol a ddyfynnwyd (adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) a Rheoliadau 2005 yn cyfeirio'n gyson at "local education authority" ("awdurdod addysg lleol") sydd felly y term y dylid bod wedi'i ddefnyddio yn y Rheoliadau hyn. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)].

Mae testun Saesneg rheoliad 2 (5) a (11) yn cyfeirio at "local authority" (awdurdod lleol) tra bo testun Cymraeg rheoliad 2 (5) a (11) yn cyfeirio at "awdurdod addysg lleol". [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Ebrill 2009; mae'n bwysig felly bod yr anghysondeb uchod yn cael ei gywiro cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Janet Ryder**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**27 Ebrill 2009**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Bydd y Llywodraeth, o fewn 3 mis, yn gwneud Rheoliadau diwygio mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod defnyddio'r term awdurdod lleol yn effeithio ar y ffordd y caiff y Rheoliadau eu deall.